Tydi yw'r wir Winwydden, Iôr

Caneuon Ffydd: Rhif 285

Tydi yw'r wir Winwydden, Iôr,
sy'n fythol ir a byw,
a ninnau yw'r canghennau sydd
dan bla ein dydd yn wyw.

O bydd dosturiol wrthym, Iôr,
nyni y diffrwyth rai;
na fwrier un ohonom byth
fel cangen grin i'r clai.

O deued llaw drugarog, Iôr,
i'n trin a'n llwyr lanhau,
a doed y nodd sydd ynot ti
i'n treiddio a'n bywhau.

O cadwer ni yn iach, ein Iôr,
heb arnom bla na haint,
nes ffrwythwn oll yn helaeth iawn
fel grawnwin llawn eu maint.

Ni allwn wneuthur dim, ein Iôr,
os ceisiwn hebot ti;
ein grym fydd aros ynot mwy,
a thithau ynom ni.

ARTHUR WILLIAMS, 1910–83

MYFYRDOD

Myfyrio ar ymadroddion Iesu yn Ioan 15 mae Arthur Williams yn ei emyn. 'Myfi yw'r wir winwydden, a'm Tad yw'r gwinllannwr', meddai Iesu yno, yr olaf o'i ddywediadau 'Myfi yw'. Fe gofiwch fod saith ohonynt gan Iesu yn Efengyl Ioan: 'Myfi yw bara'r bywyd' (Ioan 6); 'Myfi yw goleuni'r byd' (Ioan 8); 'Myfi yw drws y defaid'; 'Myfi yw'r bugail da' (Ioan 10); 'Myfi yw'r atgyfodiad

a'r bywyd' (Ioan 11); 'Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd' (Ioan 14), ac yma yn Ioan 15 – 'Myfi yw'r wir winwydden'.

Gofyn am gael aros yn y winwydden mae Arthur Williams, ac ar i Dduw fod yn drugarog wrth ein diffrwythdra. Ond mae Duw yn glanhau y canghennau diffrwyth sydd ynom ni er mwyn ein cymell i ffrwytho ac i fod yn gryfach. Soniodd gwinllannwr unwaith mai'r canghennau roedd Iesu yn dweud y byddai'r Tad yn eu torri i ffwrdd oedd y gwylltimpiau, neu'r 'sucker shoots' o roi'r enw Saesneg mwy cyfarwydd. Mae'r canghennau bychain hyn yn sugno nodd y winwydden gan ei gwneud yn anabl i gynhyrchu dim ond dail – dim ffrwyth.

Er mwyn cadw'r winwydden yn iach, felly, mae'n rhaid cael gwared â'r myrdd ganghennau bach yma sy'n sugno'r nodd. Beth yw'r gwylltimpiau sy'n sugno'r nodd yn ein bywydau ni? Gofynnwn i'n hunain hefyd beth sy'n ein rhwystro ni rhag bod yn ffrwythlon. Dydy'r canghennau bychain hyn ddim yn tyfu dros nos, ond yn cynyddu'n araf deg ac yn ein rhwystro rhag rhoi y cyfan yn ein gwasanaeth i Grist. Mae Duw yn glanhau popeth ynom ni nad yw'n ddefnyddiol ac yn ein helpu i aros yn y winwydden, yn ein 'trin a'n llwyr lanhau' er mwyn i'r nodd o'r winwydden gael mynd i'r lle iawn a thuag at yr hyn fydd yn ffrwytho 'i'n treiddio a'n bywhau'. Oes ynom ni hunanoldeb?

Ydym ni'n ansensitif i anghenion eraill? Ydym ni'n rhoi ein hegni i gyd yn ein hawydd i lwyddo ar draul ein teuluoedd a'n lles ysbrydol? Oes angen tocio dipyn ar ein diogi a diffyg disgyblaeth? Mae Duw yn benderfynol o'n glanhau, gan docio'r pethau sy'n ein gwneud yn analluog i roi ein gwasanaeth iddo. 'Yr ydym ni i gyd … yn cael ein trawsffurfio o ogoniant i ogoniant, yn wir lun ohono ef. A gwaith yr Arglwydd, yr Ysbryd, yw hyn,' meddai Paul (2 Cor. 3:18). Ni ddylem ofni'r trawsffurfio hwn na thocio caled y gwinllannwr chwaith, oherwydd dwyn ffrwyth yw ei nod – 'fel grawnwin llawn eu maint'.

GWEDDI

O Dad, y gwinllannwr sy'n dymuno gweld y gorau o'i lafur, cynorthwya fi i aros yn Iesu'r Wir Winwydden, gan fodloni iti docio popeth yn fy mywyd i nad yw'n dwyn ffrwyth i'th ogoniant di. Amen.